**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 08 Ebrill 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Ebrill 2025 |

**PWNC**

Eitem 6: DARPARIAETH CYNHWYSIAD GWYNEDD

---

**PENDERFYNIAD**

1. Mabwysiadu yr Opsiwn o greu Uned Gyfeirio Disgyblion Cofrestredig Portffolio (Aml Safle).
2. Derbyn y cynllun ariannu a gyflwynwyd yn yr adroddiad gan ddirprwyo'r amserlen gweithredu a gwireddu y cynllun i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Addysg.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae newidiadau sydd yn cael eu ffafrio yn gofyn i ni ail-fodelu'r gwasanaeth er mwyn gwella beth sydd yn cael ei gynnig. Mae gan yr Adran fwriad i ariannu'r gost a wynebir er mwyn gweithredu'r newidiadau yn 2025/26 o ffynonellau presennol gan yr Adran. Bydd yna broses o ail-strwythuro yn digwydd yn ystod 2025/26, ac os bydd yna fwlch yn yr ariannu yn dilyn y broses honno, bydd angen i'r Cabinet ragdybio bid am gyllid parhaol ar gyfer 2026/27 ymlaen.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 08 Ebrill 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Ebrill 2025 |

**PWNC**

Eitem 7: CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN 2025/26 YNG NGWYNEDD

**PENDERFYNIAD**

1. Cytuno i barhad trefn llywodraethu ranbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) y Deyrnas Gyfunol ar gyfer y flwyddyn bontio 2025/26 gan awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr - i gadarnhau'r trefniadau

2. Cytuno i barhau trefniadau llywodraethu lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Gyfunol yng Ngwynedd ar gyfer y flwyddyn bontio 2025/26.

3. Cytuno bod pob cynllun yng Ngwynedd yn derbyn arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wireddu dwy egwyddor, sef:
   a. Bod ymdrech fwriadol i sicrhau fod arian SPF a'r budd yn deillio ohono yn elwa cymunedau a thrigolion ym mhob rhan o Wynedd.
   b. Bod ymdrech fwriadol i annog gweithgareddau (a sefydliadau) nad ydynt wedi derbyn arian yn flaenorol gael mynediad i gymorth)

4. Cytuno i esblygu ac addasu gweithgareddau o ymhlith prosiectau presennol a'u hymestyn ar gyfer y flwyddyn drosiannol, yn unol ag egwyddor Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol bod cyllid 2025/26 y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn estyniad o'r cyfnod 2022/24 i 2024/25 sy'n pontio i drefn ariannu newydd.

5. Gofyn i'r Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynlluniau unigol sydd dan ystyriaeth ar gyfer dyraniad Gwynedd o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gyflwyno argymhelliad yn ôl i'r Cabinet ar y dyraniadau unigol.

6. O fewn y gyllideb £7,900,000, cytunwyd i barhad pedair cronfa (gyda chyfanswm cyllideb cychwynnol oddeutu £2.29 miliwn) i ddosbarthu symiau llai o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin i fentrau a chymunedau'r sir gan awdurdodi parhad tair cronfa dan reolaeth Cyngor Gwynedd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Sefydlwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar gyfer

cyfnod o dair blynedd ariannol hyd at 2024/25. Sefydlwyd trefniadau llywodraethu ac ymrwymwyd arian i brosiectau yn unol â'r amserlen.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi penderfynu parhau gyda'r Gronfa am flwyddyn arall (2025/26) fell mae angen i'r Cabinet gadarnhau'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn ychwanegol a phenderfynu sut i ddefnyddio'r arian.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 08 Ebrill 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Ebrill 2025 |

**PWNC**

Eitem 8: CYNNIG MAETHU I OFALWYR MAETHU CYMRU GWYNEDD

---

**PENDERFYNIAD**

1. Caniatáu gostyngiad o 50% (25% i Ofalwyr Maeth egwyl fer) ym miliau Treth Cyngor prif breswylfa gofalwyr maeth sy'n gofrestredig i'r Cyngor, cyn ystyried unrhyw ddisgowntiau, eithriadau a/neu Ostyngiad Treth Cyngor y maent eisoes yn deilwng iddynt.
2. Cynnid tocyn parcio blynyddol am ddim.
3. Defnydd diderfyn o ganolfannau hamdden.
4. Mabwysiadu polisi Maethu Cyfeillgar i ofalwyr maeth Maethu Cymru Gwynedd sy'n gyflogedig i'r Cyngor.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Adran 13A(1)(c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi grym dewisol cyffredinol i awdurdodau bilio megis Cyngor Gwynedd i leihau atebolrwydd am Dreth Cyngor mewn perthynas ag unrhyw berson, neu grŵp o bobl, yn ychwanegol i unrhyw ddisgowntiau ac eithriadau cenedlaethol perthnasol.

Mae Adran 67 Deddf 1992 yn rhestru'r adrannau hynny o'r Ddeddf ble'r Cyngor Llawn yn unig all benderfynu arnynt. Gan nad yw Adran 13A(1)(c) yn ymddangos ar y rhestr yma, gall y Cabinet wneud penderfyniad i ganiatáu rhyddhad dan yr Adran hon.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o awdurdodau bilio yng Nghymru wedi penderfynu caniatáu gostyngiad i filiau Treth Gyngor rheini maeth penodol, fel rhan o becyn er mwyn denu mwy o bobl i ymgymryd â'r rôl yma.

Mae'r mater hwn wedi cael sylw gan swyddogion ac aelodau ar draws sawl adran a portffolio. Mae hefyd wedi ei gefnogi gan Banel Rhiant Corfforaethol y Cyngor.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Arweinydd y

Cyngor) oherwydd ei bod wedi gwneud cais i fod yn riant maeth gyda Maethu Cymru Gwynedd. Nodwyd ei fod yn fuddiant sy’n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 08 Ebrill 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Ebrill 2025 |

**PWNC**

Eitem 9: SIARTER RHIANTA CORFFORAETHOL

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo mabwysiadu'r Siarter Rhianta Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru egwyddorion ar gyfer Siarter Rhianta Corfforaethol ym Medi 2023. Mae'r Llywodraeth yn gofyn i gyrff yn y sector cyhoeddus lofnodi'r Siarter i ddangos eu hymrwymiad i hyrwyddo hawliau a chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 08 Ebrill 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Ebrill 2025 |

**PWNC**

Eitem 10: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 08 Ebrill 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Ebrill 2025 |

**PWNC**

Eitem 11: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS TAI AC EIDDO

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 08 Ebrill 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym:** Ystyriwyd y mater yma yn fater brys oherwydd gofynion amserlennu prosiect ac yn unol â pharagraff 7.25.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a gyda chaniatâd Cadeirydd y Cyngor mae'r penderfyniad yn cael ei eithrio o'r drefn galw i mewn ac yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod a'r penderfyniad. | 08 Ebrill 2025 |

**PWNC**

Eitem 13: DIWEDDARIAD YN DILYN DYFARNIAD YR UCHEL LYS MEWN PERTHYNAS Â CHADARNHAU'R CYFARWYDDYD ERTHYGL 4

---

**PENDERFYNIAD**

1. Nodi penderfyniad caniatâd yr Uchel Lys ynglŷn â'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ynglŷn â'r wybodaeth bellach a ddarperir.
2. Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau cadarnhau cefnogaeth i Opsiwn 3 i barhau i amddiffyn yr achos.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Penderfynodd Cyngor Gwynedd (Y Cabinet) i gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 (nad yw'n dod i rym yn uniongyrchol) ar 16 Gorffennaf 2024. Mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet (cadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4) mae cais i gynnal adolygiad barnwrol wedi ei wneud.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---